Cynhaliwyd cyfarfod o'r Cyngor Cymuned ar Fehefin 15 2017 yn Neuadd Santes Ursula

Presennol : Islwyn Jones, Dai Jones, Fred Jones a'r Cynghorydd Rowland Rees Evans, a'r clerc.

Ymddiheuriadau : Morgan Morgans, Huw Griffith.

Darllenwyd cofnodion cyfarfod Mai 25, ac arwyddwyd eu bod yn gywir.

Materion yn codi
1 Cysylltwyd â James Davison ynglŷn â Chronfa Gymunedol Llety'r Bugail a chael ar ddeall y dylai'r ugain mil fod wedi cyrraedd y banc erbyn hyn. Derbyniwyd copi printiedig o'r Cytundeb.
2 Ni chafwyd unrhyw ymateb i'r hysbyseb am aelod i'w gyfethol. Awgrymwyd un neu ddau o enwau a gofyn i'r cadeirydd wneud ymholiadau.

Gohebiaeth

1 Gwybodaeth am Bwyllgor Rheoli Datblygu mis Mehefin
2 Digwyddiad am ddim i ofalwyr yn Aberaeron Mehefin 16
3 Cylchgrawn 'Ffocws ar Chwarae'
4 Gofyn am dynnu sylw at a hysbysebu 'Merchant Navy Day' ar y 3ydd o Fedi.
5 Cyngor Sir yn gofyn am sylwadau ar adolygiad Cynllun Gwella Hawliau Tramwy. Ni chynigiwyd unrhyw sylwadau.
6 Holiadur wrth y Gwasanaeth Tân ac Achub. Roedd y cwestiynau ar yr holiadur yn ymddangos yn berthnasol i unigolion ac nid i Gyngor.
7 Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys eisiau gwybod ym mha iaith hoffen ni iddyn nhw gysylltu â ni. Ateb i ddweud dwy-ieithog.

e-byst oddi wrth Un Llais Cymru
1 Cynnig sesiynnau hyfforddi
2 Gwybodaeth am Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol ynglyn â henebion ac adeiladau rhestredig.
3 Gofyn am brojectau i'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol
4 Cyfarfod o City Farms and Community Gardens ym Mangor 23-24 Mehefin. Hefyd gwybodaeth am gynllun Tyfu Fyny lle tyfir llysiau ayyb yn organig, i'w gwerthu er mwyn helpu pobl sy'n agored i niwed

Ariannol

Cyfrif banc £2757.20. Ers hynny mae £436.94 wedi mynd allan, sy'n gadael £2320.26.

Dyddiad y cyfarfod nesaf Gorffennaf 20 2017